LG35 S+217

# MARWNAD

A'R FARWOLAETH

## Mrs. JANE WILLIAMS,

**O Drefflemin,**

GWRAIG Y PARCHEDIG

## *Mr. Thomas Williams,*

GWEINIDOG YR YMNEILLDUWYR YN BETHESDA,

**SWYDD FORGANWG,**

Yr hon a hunodd yn yr Arglwydd, Hydref 24, 1827, yn 68 o Oed.

**GAN THOMAS RATCLIFF.**

*Siommedig yw ffafr, ac ofer yw tegwch: ond benyw yn ofni yr Arglwydd, hi a gaiff glod.*—SOLOMON.

---

1. CLYWAIS newydd trwm galarus,
   Un o'r tryma i mi'r erioed,
Er fy mod i yn ei erfyn,
   Ddyddiau ronyn cyn ei ddo'd,
Fod Meistress WILLIAMS o Drefflemin,
   Ffyddlon fam yn eglwys Dduw,
Wedi cyrhaedd pen ei therfyn,
   Pob munudyn oedd hi'n fyw.

2. Teimlais hiraeth yn fy enaid,
   Gwelais golled gyda ni,
Yn y byd ag yn yr eglwys,
   Ac yn ei theulu trefnus hi;
Gwn nas gallaf byth i adroedd
   Yr hyn a haeddoedd yn fy mhyw,
Rhaid priodoli ei gweithredoedd
   I gyd i ras yr Arglwydd Dduw.

3. Anwyl Chwaer ac Efengyles,
   Ti ddihengaist yna fry,
Uwch y swn a'r terfysgiadau,
   A'r temtasiwnau gyda ni;
Er i gystydd blin a galar,
   Ddylin yma hyd y bedd,
Goddiweddaist wir lawenydd,
   'Nawr o fewn y wlad o hedd.

15139
X 293 3M129

UNIV. COLL. OF N. WALES & MON. LIBRARY

4. Collwyd mamaeth Gweinidogion,
   Lletty clyd a groeso llawn,
Pob cynaliaeth idd ei natur,
   Yn y boreu a'r prydnawn;
Nid anghofiodd ddim o'r tlodion,
   Rhoddi hefyd iddynt hwy,
A dilladu rhai anghenus
   Pethau gweddus mwy na mwy.
5. Gwraig rhinweddol idd ei phriod,
   Gwerthfawrocach iddo fe
Nag aur Peru, na pherlau'r India,
   Na'r holl drysorau dan y ne';
Byth yn bwyta bwyd segurllyd,
   Trefnu ei thy a'i chelloedd llawn,
Byw yn wresog yn yr yspryd,
   O las foreu hyd brydnawn.
6. Ei phlant hi gododd mewn gweddeidd-dra,
   Gwisgoedd addas iddynt clywch,
Cyfatebol idd ei galwad,
   Dim yn îs na dim yn uwch,
Wedi ei codi mewn dysgeidiaeth,
   Manteision helaeth iddynt fyw,
A phob llawnder idd ei llòni,
   Trwy fodd ei Tad i foddio Duw.
7. Trefnu ei theulu mewn doethineb,
   Pob peth yn ei pryd a'i le,
Craffu ar ffyrdd y tylwyth ammod,
   Rhoddi y rheini i ras y ne',
Ai gyrru i'r odfaeon hefyd,
   Edrych rhoddai Duw rhyw bryd
Edifeirwch gwir i fywyd,
   Cyn ymado hyn o fyd.
8. Wyth a thrugain o flynyddau
   Yn y byd bu yma yn byw,
Naw a deugian llawn a dreuliodd,
   Ai gwedd yn hardd yn eglwys Dduw;
Byw mewn cariad at yr achos,
   Gwresog yn yr Yspryd Glan,
Caru'r brodyr yn ei chalon,
   Gweiniaid Sïon fawr a mân.
9. Pleser oedd i gael ei chlywed,
   Lawer gwaith yn frig y nos,

15139
P WG16·12

Mewn cyfarfod neillduedig,
Yn son am Iesu Grist a'i groes;
Weithiau yn achwyn arni hunan,
Weithiau yn canmol am ei ras,
Para i ddadleu rhyw addewid,
Mewn peraidd glod wrth brofi'r blas.

10. Llawer o fendithion grasol,
Gwenau siriol Yspryd Duw
Gafodd yma yn ei bywyd,
Cyn dychwelyd ato i fyw;
Ar addewidion yr Ysgrythyrau,
Bywioliaetha ddydd a nos,
Pwyso am helaeth Iachawdwriaeth,
I gyd trwy aberth mawr y groes.

11. Hi ddywedai gyda phleser,
Am flas a chryfder geiriau Duw,
Sydd yn y Drydedd o'r Phillipiaid,
Pan yr oedd hi eto yn fyw,
Yr hwn yn wir a gyfnewidia
Fy ngorph er gwaeled yw e' 'nawr,
A'i wneud yn ogoneddus debyg
I sanctaidd gorph fy Arglwydd mawr.

12. Yr hwn yn ol ei nerthol allu,
Pob peth yn gweddu iddo ef,
Daear, uffern, a'i thrigolion,
A phob achosion yn y nef;
A'r marwolion yn ei beddau,
Dan gloion angau mwy na mwy,
A gant ei codi yn fyw i fynu,
A mi pryd hyny gyda hwy.

13. Hi dreuliodd hir flynyddau yma,
Mewn cystyddiau trymion iawn,
A'i ffydd yn sylfaen idd ei gobaith,
Am yr Iachawdwriaeth lawn,
'Nawr ei ffydd a drodd yn olwg,
Ai gobaith hefyd yn fwynhad,
Yn gweled Iesu yn awr yn amlwg,
Yn eistedd ar ddeheulaw'r Tad.

14. Yna yn syllu ar ei Berson
Sanctaidd gogoneddus ef,
Yr yspryd eang yno yn hawddgar,
Yn drachdio'r llawnder yn y nef;

Bywioliaethu yn ysprydol,
Pethau nefol oll i gyd,
Perffaith gariad yn ei henaid,
Mewn cymmeriad gwyn ei byd.

15. Mae rhyw ddychymyg i mi'n dywedyd,
Pan aeth hi mewn i'r nefoedd draw,
I Rachel, Sarah, a Rebecca,
Fel ymaflyd yn ei llaw,
A Iesu yn dywedyd wrth ei yspryd,
Cai bob gwynfyd sydd yn bod,
Dyna meddwl Iesu anwyl,
Ti yn gwbwl gaiff y clod.

16. Mae yn awr yn gwel'd yr hwn sy'n eistedd
Ar yr orsedd yn y nef,
Fel maen Iaspis, ag fel Sardin,
Nid mor bur a'i olwg ef:
Enfys gwyrdd, sef lliw Smaragdis,
O mor hapus ydyw'r bod,
A'r Brenin Iesu yn dehongli
Yr hyn a fu a'r hyn sy fod.

17. Yr holl henuriaid, partriarchiaid,
A phroffwydi ffyddlon Duw,
A'r angylion, apostolion,
A miloedd o ysprydion byw,
A'i coronau ar ei pennau,
Gynau gwynion yno gyd,
Cyfiawnder Iesu yn ei harddu,
Mewn uchel swydd o swn y byd.

18. Hi ddywedai ychydig cyn ymadael,
Wrth ei phriod ar y llawr,
Ni ddychwelai eto attoch,
'Rhwy'n ymadael a chwi 'nawr,
Chwi ddewch ato i mhen gronyn,
I'r breswylfa lonydd wiw,
Codwch fel gwnaeth Dafydd dduwiol,
I wneud eich swydd yn deml Dduw.

19. Hi ganodd lawer cant o weithiau,
Yn Bethesda gyda ni,
A'i llais ar adsain fel yr organ,
Yn datgan clod ein Arglwydd cu;
Yn awr yn canu clod i'r Iesu,
Mewn gwell cwmni yn y nef,

Yn rhoi anrhydedd, parch, a'r mawredd,
Byth heb ddiwedd iddo Ef.
20. Bendith bryniau tragywyddoldeb,
Ar dy holl berthynasau byth,
Ar dy blant ag ar dy wyrion,
Fel dyferion rhif y gwlith;
Cafod ffrwythlon Iachawdwriaeth,
Bendith helaeth i bob un,
Yw dwyn i adnabod Iesu'n briod,
Fel y cefaist ti dy hun.
21. Peggy, Peggy, mor hiraethlon,
Ydwyt yn y byd yn byw,
'Nawr yngwlad y galarnadau,
Ymgysura yn dy Dduw;
Llef am nerth i rodio'r llwybrau,
Deddfau'r nef yn llwyr bob cam,
A'th obaith yn yr Iachawdwriaeth,
Mor helaeth ag y gwnaeth dy fam.
22. Thomas, John, dau Fab anwylau,
Mae'r holl Ysgrythyrau yn gytun,
Yn dweud am noddfa i'ch enaidiau,
A grasusau Duw ei hun;
Gweddiwch, llefwch, am adnabod
Iesu'n briod yma 'nawr,
Cewch weled eto eich mam yn trigo,
Mewn gwell lle nag ar y llawr.
23. Chwithau Mhrawd parchedig hawddgar,
Er colli cydmer dyner glyd,
'Doedd yr ammod i fod yn briod,
Hyd angau'n bod a thyna gyd;
Ond mae cyfammod Duw yn Iesu,
Mi wn eich bod yn credu'r son,
Yn y bywyd, yn yr ail fyd,
Fel cadarn graig i wraig yr Oen.
24. Ymwrolwch fel Gideon,
Duw sy'n ffyddlon gyda chwi,
I godi eich yspryd yn y gofid,
Treiliwch fywyd gyda ni;
Pregethwch helaeth Iachawdwriaeth,
Gweinidogaeth angau'r groes,
Na wnewch attal cyn ymado,
Tra parhao hyd eich oes.

25. Angau, gelyn anghymodlon,
Didrugaredd wyt ti erioed,
Rhanu rhwng perthynasau nesaf,
Ac anwylaf sydd yn bod,
Mawr mor helaeth yw'th lywodraeth
Lladd dynoliaeth rhif y dail,
Ond fe'th ddinystrir rhyw ddiwrnod,
Trwy awdurdod Adda'r ail.

26. Felly 'r bedd tranciedig creulon,
'Does gweld dy ddigon i ti byth,
Er cadw yno dan dy gloion,
Gyrph duwiolion rhif y gwlith;
Mae y funud wedi threfnu,
Colli'th allu arnynt hwy,
Er mor helaeth yw'th lywodraeth,
Ble bydd dy fuddygoliaeth mwy.

27. Mae hiraeth trwm a swn hiraethlon
'Nawr yn Sïon ar ei hol,
Gwaith colli mam a mamaeth dawel,
Am nas dychwel byth i nol,
Ond mai collad Sïon rasol,
Yn glod tragywyddol idd ei Duw,
Ynghyd ag elw idd ei yspryd,
Trwy dwyn o'i phoen oedd ynddo yn byw.

28. Tithau'r ganghen sy'n Bethesda,
Mi wela'th ddagrau fel y gwlith,
Am colli un o'r rhai ffyddlona
Erioed fy yma yn ein plith;
Rhaid distewi a bod yn dawel,
Dyma fel sy rhaid ei bod,
Ni symudwyd craig yr arfaeth,
Er mwyn un fam na thad erioed.

29. Er fod Crist yn trigo ynot
Yma Sïon ar y llawr,
Y corph sydd farw o herwydd pechod,
Hyd yr adgyfodiad mawr;
Ond yr yspryd sydd yn fywyd,
O herwydd pur gyfiawnder Duw,
Dyna'r ffordd sy wedi ei threfnid
I gadw corph ag enaid byw.

30. Y mae hiraeth yn fy enaid,
Am gael gwel'd y boreu wawr,

Pan gwelir Sïon wedi codi
Yn llu i'r lan o lwch y llawr;
Colyn angau wedi lyngcu
Gan fy Iesu mawr ei hun,
Mae rhyw obaith yn ddirhagraith,
Er amherffaith byddai'n un.

31. O's bydd neb o'r byd yn holi,
Ble mae'n llechu yn y llawr,
Mae chorph hi'n gorwedd yn Bethesda,
Hyd yr adgyfodiad mawr;
Yr hwn a gododd Crist i fynu,
Cyfyd hithau, dyna fraint,
Uno ei yspryd yn y bywyd,
Tragywyddol glod yw bod yn Saint.

32. Dynolryw a enir yma,
Byr yw'r dyddiau yn y byd,
Llawn o helbul a blinderau,
Mae'n gystuddiau bron i gyd;
Fel blodeuyn y daw allan,
Buan torir ef i lawr,
Ac fel cysgod gwag fe gilia,
I fyd y sylweddoldeb mawr.

33. Pan daw Iesu a'r y cwmwl,
Yng ogoniant hardd y Tad,
Ynghyd ac udgorn Duw yn canu,
A'r meirw yn codi ar ei traed,
A'r duwiolion byw pryd hyny
Yn gwladychu ar y llawr,
Mewn un foment a newidir
Gyda swn yr udgorn mawr.

34. Cawn ein cipio i'r cymylau,
I gwrdd a'n Arglwydd, rhyfedd yw,
Cael ei weled mewn gogoniant,
Dyna ddiben cariad Duw;
Bod pob amser yn ei olwg,
Edrych beunydd ar ei wedd,
Gwleddoedd melus Iachawdwriaeth,
Byth o fewn y wlad o hedd.

35. Cawn fod yn ysprydol debyg,
Nid mewn graddau gormod yw,
Ond mor debyg ac y trefnwyd,
I ni oll yn arfaeth Duw;
Fel dygasom ddelw Adda,
Yr Adda cyntaf ar y llawr,

Gweler arnom ddelw Iesu,
Byth i dragywyddoldeb mawr.
36. Holl gymmanfa cynulleidfa,
Cyntaf-enedigion Duw,
Rhai ysgrifenwyd yn y nefoedd,
Cyn ein geni erioed yn fyw,
Holl fwriadau mawr yr arfaeth,
A gyflawner arnyut hwy,
Heb frycheuyn bach na chrychni,
Byth yw weled arnynt mwy.
37. Rhad yw trefn Iachawdwriaeth,
Rhad yw prynedigaeth dyn,
Rhad oedd dioddefiadau Iesu,
Medd trigolion nef yn un,
Rhad yw'r alwedigaeth sanctaidd,
Rhad a rhoddodd fodd i fyw,
Rhad yw holl rasusau'r nefoedd,
Rhad i gyd yw doniau Duw.
38. Mae marwolaeth y duwiolion,
Yn galw arnom i barhau
I ddiwigio yn ein yspryd,
Rhag bod barn yn agosau,
Bod yn ddyfal wrth yr orsedd,
Codi baner Calfari,
Am awelon yr ail eni,
Fod yn chwythu gyda ni.
39. Iesu yr testun, Iesu yr bregeth,
Iesu yr ddeddf, a Iesu yr ffydd,
Medd fy enaid wrth fyfyrio,
Felly mae ac felly bydd;
Iesu Mhrenin am Offeiriad,
Iesu Mhrophwyd mawr ei ddawn,
Yw fy ngraig am dinas noddfa,
Yn y boreu a'r prydnawn.
40. Iesu bugail mawr y defaid,
Iesu ngeidwad a fy ngrym,
Tynu'r Iesu o'r Ysgrythyrau,
Dyna ngrefydd innau'n ddim;
Tra byddo Iesu ar yr orsedd,
Fri yn eiriol yn y nef,
Y mae gobaith i bechadur,
Yn ei enw anwyl ef.

*W. a G. Bird, Argraffwyr, Caerdydd.*